Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Swyddogion Cyllid

9 Tachwedd 2026

Annwyl Gydweithwyr

SETLIAD LLYWODRAETH LEOL 2027-28:
ASESIADAU O WARIANT SAFONOL

Gwirhau Nifer y Bobl sy'n Hawlio Budd-daliadau a data hawlwyr budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer dosbarthu Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs)

Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gasglu gwybodaeth oddi wrth awdurdodau lleol i'w defnyddio wrth gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs). Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddir mor gywir a dibynadwy â phosibl, cytunwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) y dylai awdurdodau lleol gael y cyfle i graffu ar yr wybodaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiadau'r setliadau. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys Cyfrif Hawlwyr (mesur gweinyddol o nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf am eu bod yn ddi-waith) ac amcangyfrifon o nifer yr hawlwyr sy'n cael ystod o fudd-daliadau a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Gan fod y setiau data hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, gall y ffigurau amrywio yn dibynnu ar pryd y maent yn cael eu lawrlwytho. Er mwyn lleihau unrhyw wahaniaethau sy'n deillio o ddiweddariadau i'r data sylfaenol, ac mewn ymateb i adborth o ymarfer gwirhau y llynedd, byddwn yn sicrhau bod y setiau data hyn ar gael yn gynt nag arfer. Bydd yr wybodaeth sy'n weddill ar gael mewn cylch gwirhau ar wahân rhwng cyhoeddi'r Setliadau Dros Dro a'r Setliadau Terfynol, fel oedd yn wir yn achos setliad 2026-27.

Crynodeb o'r broses wirhau

Byddwn yn cyhoeddi'r setiau data hyn ar wefan Llywodraeth Cymru ar **9 Tachwedd 2026**.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae natur ddeinamig y setiau data hyn yn golygu y gallech sylwi ar wahaniaethau rhwng y ffigurau cyhoeddedig a'r rhai a gafwyd wrth ddilyn y fethodoleg a

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn • Tel: 0300 025 8171
Ebost • Email: LGFPSettlement@gov.wales

ddisgrifir yn y nodyn data. Nid yw'r ymarfer gwirhau yn anelu at ailedrych ar amcangyfrifon cyhoeddedig lle mae unrhyw wahaniaethau yn fach. Yn hytrach, bwriedir i'r ymarfer nodi unrhyw wallau neu ddiwygiadau sylweddol cyn cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro.

Y weithdrefn

Gofynnir i chi fynd i wefan Llywodraeth Cymru, lawrlwytho'r daenlen a chraffu ar y data sy'n ymwneud â'ch awdurdod chi. Mae'r data ar ffurf taenlen sy'n cynnwys setiau data ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae nodyn data sy'n disgrifio'r data a'r broses yn fanylach hefyd ar gael ar y wefan.

Cwblhewch y ffurflen wirhau a'i dychwelyd i ni drwy e-bost erbyn **23 Tachwedd 2026** (caiff datganiad 'dim' ei ystyried fel cytundeb i'r data a rennir). Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y data, codwch nhw ar y ffurflen ymholiad a'u hanfon yn ôl atom drwy'r cyfeiriad e-bost LGFPSettlement@Gov.Wales

Er nad oes unrhyw rwymedigaeth ffurfiol ar eich rhan chi i gymryd rhan yn yr ymarfer hwn, bernir ei fod yn gam pwysig yn y gwaith o gyfrifo'r Setliad Llywodraeth Leol.

Mae'r ffurflen data ac ymholiad, y nodyn data a'r ffurflen wirhau i'w gweld ar y ddolen ganlynol:

https://www.llyw.cymru/setliad-refeniw-chyfalaf-llywodraeth-leol-gwiriadau-dilysu-2027-i-2028

Rwy'n sylweddoli bod hyn yn golygu gwaith ychwanegol ar adeg brysur, ond rwy'n siŵr eich bod chi'n deall yr angen i gael data cywir i'w ddefnyddio ar unwaith. Diolch am eich cydweithrediad.
Yn gywir,

Jolyon Lloyd-Davies
Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd